Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Camau Cyntaf - First Steps Rainbow Rooms

**Canolfan Gymunedol Dai Davies**
**Heol Eurwen Davies**
**Rhiwgarn**
**Porth**
**CF39 9AZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Camau Cyntaf - First Steps Rainbow Rooms

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Camau Cyntaf - First Steps Rainbow Rooms |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Camau Cyntaf i Ddysgu C.B.C |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Lisa Thomas |
| Person â gofal | Kelly Matthews |
| Nifer y lleoedd | 42 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 14 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 13 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9am a 3pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion plant o ran y Gymraeg a'i diwylliant sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 15/01/2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ddim yn berthnasol |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 20/06/2023 |
| Ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd.<br>Ychydig iawn o blant sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Rhoesom wybod i'r darparwr am faes i'w wella lle nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Ni chyhoeddwyd hysbysiad, ond nodir bod hyn yn faes i'w wella, a rhaid i'r unigolyn cyfrifol fynd i'r afael â hyn. Bydd gwybodaeth am bob achos o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei chynnwys mewn Crynodeb o Gamau Gweithredu i Wella, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn unig.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Defnyddio arsylwadau ac asesiadau plant yn sylfaen i gynllunio ar gyfer medrau sy'n cefnogi'r camau nesaf yn natblygiad plant ymhellach

A3 Gwella prosesau hunanwerthuso i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir, a sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu gwerthuso'n effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion a'r meysydd i'w gwella.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol am eu bywyd bob dydd yn y lleoliad. Maent yn cyfleu eu hanghenion yn hyderus ar lafar ac yn ddieiriau, gan ddewis y gweithgareddau yr hoffent ymgymryd â nhw. Maent yn symud yn hawdd rhwng yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi ymlacio ac ymgynefino yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr oherwydd eu bod yn cael croeso cynnes iawn, ac mae arferion dyddiol yn cefnogi eu hanghenion unigol. Mae bron pob un o'r plant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd eu bod yn profi rhyngweithio cadarnhaol ag ymarferwyr sy'n eu hadnabod yn dda. Mae plant yn troi at staff i gael maldod a gofyn am gymorth, er enghraifft pan fydd angen help arnynt i ddod o hyd i hoff degan. Maent yn derbyn ymatebion cadarnhaol yn gyson i'w ceisiadau.

Mae llawer o blant yn rhyngweithio'n dda â phlant eraill. Maent yn dysgu rhannu â'u ffrindiau gyda chymorth gan ymarferwyr, er enghraifft cymryd eu tro wrth wneud 'glŵp'. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gyfarwydd â threfn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn gwybod pryd i olchi eu dwylo ac yn eistedd wrth y bwrdd yn barod am eu byrbryd.

Mae bron pob un o'r plant yn weithgar a chwilfrydig. Maent yn ymgymryd â gweithgareddau trwy gydol eu cyfnod yn y lleoliad gan fynegi mwynhad. Er enghraifft, mae plant yn dangos cyffro wrth guro rhew i ryddhau pryfed cop tegan. Maent yn chwarae rôl am gyfnod amser estynedig gan wneud diodydd a'u gweini.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos medrau annibyniaeth da. Maent yn dewis pa fwyd a diod yr hoffent, fel llaeth, ac yn gweini eu byrbrydau eu hunain. Maent yn defnyddio gefelau a llwy yn briodol, gan dywallt eu diodydd eu hunain o jygiau bach a chlirio llestri ymaith.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol yn dda tra'n dilyn eu diddordebau eu hunain. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau corfforol trwy ddringo ysgolion a siglo ar fyrddau cydbwysedd. Maent yn datblygu eu medrau datrys problemau wrth lenwi cynwysyddion â thywod a gweithio allan pam nad yw'n dod allan o'r tap ar y gwaelod. Maent yn symud o gwmpas y lleoliad yn hyderus gan ddewis gyda beth maent eisiau chwarae.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da yn yr holl feysydd dysgu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau'n effeithiol trwy ddarparu profiadau chwarae pwrpasol. Mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n dda ac yn glir, ac mae ychydig ohonynt yn mynegi eu hunain yn ddieiriau. Mae llawer o blant yn gwrando'n astud a gyda dealltwriaeth, er enghraifft pan fydd ymarferwr yn esbonio pam mae eu henwau wedi'u hysgrifennu ar eu lluniau. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno'n frwdfrydig â chaneuon a rhigymau, gan ddangos y symudiadau i'w hoff ganeuon.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau, gan eu dewis yn annibynnol yn yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Mae bron pob un o'r plant yn dilyn ac yn gwrando ar oedolyn yn darllen stori â diddordeb. Maent yn troi tudalennau un ar y tro ac yn trin a thrafod llyfrau yn briodol. Mae ychydig iawn ohonynt yn darllen rhifau ac yn deall y dilyniant rhifau yn dda.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau creu marciau yn llwyddiannus gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn creu marciau ystyrlon, gan gynnwys peintio petalau, tynnu llun bysedd â phennau ffelt a defnyddio pensil a chlipfwrdd i greu siapiau.

Mae bron pob un o'r plant yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau Cymraeg syml. Er enghraifft, maent yn deall pryd mae'n amser brwsio'u dannedd neu olchi eu dwylo. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau ymuno â hwiangerddi Cymraeg ac yn gwrando arnynt ar deils digidol. Mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio iaith syml wrth iddynt chwarae, fel adnabod ac enwi lliwiau.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Maent yn trin offer bach â rheolaeth gynyddol. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyllyll diogelwch yn fedrus ar gyfer torri afalau yn ddarnau llai wrth wneud saws afal. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio'r offer chwarae mawr yn hyderus ac yn ddiogel, er enghraifft wrth ddringo ysgol fach yn ofalus ac aros am gymorth oedolyn cyn neidio i ffwrdd.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dewis ac yn defnyddio offer mathemategol yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn llenwi jygiau yn briodol i ddatblygu eu dealltwriaeth o 'llawn' a 'gwag' wrth chwarae yn y pwll tywod. Maent hefyd yn defnyddio cynwysyddion o wahanol faint i ddeall pa un yw'r mwyaf a'r lleiaf. Mae llawer o blant yn mwynhau archwilio siapiau dau ddimensiwn trwy eu chwarae. Maent yn didoli disgiau crwn ar linell rifau ac yn paru siapiau ar flwch golau. Mae tua hanner ohonynt yn cyfrif gwrthrychau ar goedd gyda chymorth yn ystod amser byrbryd.

Mae mwyafrif o blant yn dilyn dilyniannau'n effeithiol trwy brofiadau ymarferol. Er enghraifft, maent yn gwybod ym mha drefn i fynd ymlaen wrth gymryd arnynt eu bod yn pobi afalau wedi'u torri. Maent yn ymwybodol o beryglon popty poeth ac yn sylweddoli bod angen lliain i ddal yr hambwrdd.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau datrys problemau yn eithriadol o dda. Er enghraifft, maent yn cymysgu powdr paent a dŵr gyda'i gilydd i wneud gwahanol liwiau a chysondebau paent. Maent yn dangos dyfalbarhad â'r dasg, gan gymryd eu tro i ychwanegu mwy o ddŵr a lliw. Mae llawer o blant yn cydweithio i ddatrys problem. Er enghraifft, maent yn cymryd eu tro â morthwylion i dorri rhew ac yn gwybod bod rhew yn torri os caiff ei ollwng.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau creadigol yn gyson. Er enghraifft, maent yn gwisgo i fyny mewn amrywiaeth o wisgoedd wrth chwarae rôl gyda ffrindiau. Mae llawer o blant yn mynegi eu hunain yn ddychmygus trwy gerddoriaeth. Er enghraifft, maent yn gwrando ac yn symud yn briodol i'r gerddoriaeth dawel yn yr ardal y tu mewn neu'n chwarae'r gitâr â brwdfrydedd y tu allan.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus. Maent yn gafael mewn ffonau symudol yn hyderus, gan wybod eu rôl ar gyfer cyfathrebu. Maent yn pwyso botymau i wrando ar rigymau, a'u canu, ar y teils rhaglenadwy ac yn cynnau a diffodd y ffrâm olau.

### Gofal a datblygiad: Da

At ei gilydd, mae ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol i gadw plant yn ddiogel. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldeb o ran amddiffyn plant ac maent yn dilyn gweithdrefnau priodol. Maent yn cymryd camau addas o ran damweiniau ac yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybod. Maent yn gweinyddu meddyginiaeth yn unol â chyfarwyddyd rhieni. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, gan gynnwys pan fyddant yn newid cewynnau ac yn gweini bwyd. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn mynd ati i hyrwyddo ffordd o fyw yn iach. Maent yn darparu amrywiaeth o fwydydd iach ar gyfer byrbrydau plant fel llysiau, darnau o ffrwythau a chwscws, yn ogystal â dŵr a llaeth i'w yfed. Mae gan lawer o ymarferwyr ddealltwriaeth dda o anghenion deietegol plant ac maent yn sicrhau eu bod yn bodloni'r rhain. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn dilyn y protocolau cywir ar gyfer plant sydd ag alergeddau i fwyd a diod. Maent yn cynorthwyo plant i chwarae yn yr awyr agored cymaint â dan do ac yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer chwarae corfforol. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant i frwsio'u dannedd bob dydd.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn canmol plant yn rheolaidd ac yn eu hatgoffa'n gadarnhaol i ddefnyddio dwylo caredig a rhannu gyda'u ffrindiau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion ymddygiad unigol plant ac yn defnyddio strategaethau llwyddiannus yn seiliedig ar y rhain. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol plant.

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus fel tîm i gynllunio gweithgareddau a phrofiadau difyr, sy'n ddatblygiadol briodol ar gyfer yr holl blant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn nodi plant y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt yn gynnar ac yn gofyn am gymorth a chyngor gan asiantaethau allanol, fel ymwelwyr iechyd, seicolegwyr addysg a therapyddion lleferydd ac iaith. Maent yn cynorthwyo plant yn effeithiol wrth iddynt chwarae trwy fodelu medrau a gofyn cwestiynau agored.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gwneud ymdrech sylweddol i alluogi plant i brofi'r Gymraeg. Maent yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn naturiol wrth gynorthwyo plant yn eu chwarae, ac fel rhan o'u trefn ddyddiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod gynhwysfawr o brofiadau sy'n cefnogi datblygiad cyfannol y plant yn dda. Mae profiadau dysgu'n adeiladu ar wybodaeth bresennol plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu llwyau, cwpanau a jygiau o feintiau amrywiol i blant eu llenwi a'u gwagio wrth iddynt chwarae yn y dŵr. O ganlyniad, mae llawer o blant yn dysgu am gyfaint a chynhwysedd tra'n chwarae.

Mae ymarferwyr yn hyblyg o ran diwallu anghenion unigol plant ac maent yn ymatebol i lais plant. Er enghraifft, maent yn darparu planhigion a photiau ar gyfer plant i ymateb i blentyn yn dangos diddordeb mewn palu yn yr ardal awyr agored. Mae ymarferwyr yn annog plant yn gadarnhaol i fentro yn eu chwarae. Er enghraifft, wrth ddefnyddio'r wal ddringo, mae ymarferwyr yn arsylwi, yn aros ac yn trafod gyda phlant sut gallant symud yn fwy effeithiol ac yn ddiogel wrth ddringo. Mae ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn adnabod eu plant yn dda.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'u gwybodaeth am y Gymraeg yn briodol. Maent yn modelu iaith yn dda wrth gynorthwyo plant yn eu chwarae. Er enghraifft, tra'n peintio, roedd plentyn yn gwrando'n astud ar oedolyn yn disgrifio lliwiau ac yn cyfrif. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o ddiwylliant Cymru yn fedrus. Er

enghraifft, maent yn darparu gwisgoedd traddodiadol yn yr ardal chwarae rôl. Maent hefyd yn darparu ornamentau glo i blant afael ynddynt, a chwrwgl ar gyfer chwarae yn y tywod dan do. Maent yn darparu ymadroddion a chwestiynau dwyieithog mewn ardaloedd chwarae.

Mae ymarferwyr yn annog synnwyr o chwilfrydedd am eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill trwy arddangos adnoddau o bob cwr o'r byd, fel mygydau Affricanaidd, clocsiau o'r Iseldiroedd, ac yn chwarae cerddoriaeth gefndir o'r fforest law i feithrin synnwyr o ryfeddod ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo gwerthoedd parch a thegwch yn effeithiol. Mae pob un o'r ymarferwyr yn annog plant i chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, gan ddangos ystyriaeth am bobl eraill. Er enghraifft, maent yn annog plant i aros am le wrth ddefnyddio'r wal ddringo fel eu bod yn gallu defnyddio'r offer yn ddiogel.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn darparu profiadau cyfoethog ar gyfer plant dan do ac yn yr awyr agored, ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd chwarae. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gwybod pryd i ymyrryd yn briodol wrth i'r plant chwarae, er enghraifft wrth fodelu'r medrau sydd eu hangen i lenwi potiau a phlannu hadau yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn defnyddio medrau holi da i gefnogi dysgu'r plant. Maent yn gofyn cwestiynau agored er mwyn ehangu gwybodaeth y plant, er enghraifft wrth drafod effaith yr haul a'r cysgod. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru ac yn dechrau rhoi hyn ar waith yn ymarferol. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio asesiadau rheolaidd i sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw asesiadau bob amser yn nodi meysydd i'w datblygu yn ddigon manwl i gefnogi cynnydd pob un o'r plant.

Yn gyffredinol, mae arsylwadau ymarferwyr yn cefnogi cyflawniadau plant ac yn nodi meysydd i'w gwella. Mae gweithwyr allweddol yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynorthwyo plant yn dda. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda rhieni sy'n sicrhau eu bod yn deall beth mae eu plant wedi bod yn ei ddysgu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn darparu amgylchedd ysbrydoledig a chyffrous, sy'n cefnogi datblygiad a lles plant.

Mae arweinwyr yn gweithredu systemau effeithiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn cynnal asesiadau risg manwl ac yn adolygu'r rhain yn rheolaidd. Maent yn trefnu adolygiadau rheolaidd o fesurau diogelwch, ar y cyd â'r ymarferwyr a'r awdurdod lleol. Maent yn darparu amgylchedd diogel, sy'n amddiffyn plant rhag mynediad anawdurdodedig. Mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol ar yr amgylchedd ac yn sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw risgiau a nodwyd ar unwaith. Mae'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn lân iawn ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r ardal chwarae dan do wedi'i hawyru'n dda, sy'n cynorthwyo iechyd y plant.

Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn eithriadol o dda i gefnogi annibyniaeth plant, ac yn darparu cyfleoedd chwarae cyffrous. Gall plant gael mynediad yn annibynnol i'r toiledau a dodrefn o ansawdd da ac ardaloedd cysurus i ymlacio a chael amser tawel. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynllunio amgylchedd eithriadol o effeithiol yn ystyriol, gan ymgorffori cyfleoedd chwarae difyr. Ceir ardaloedd chwarae rôl ag adnoddau da, gan gynnwys ardal gartref gydag adnoddau bywyd go iawn fel cwpanau a soseri Tsieina, matiau diodydd a dodrefn go iawn. Mae bwrdd ymbincio â stôl, drych, brwsys coluro, ac amrywiaeth o fagiau llaw a chamerâu hefyd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gwneud defnydd llawn o'r gofod sydd ar gael yn yr awyr agored ac mae hyn yn estyniad o'r amgylchedd dysgu dan do. Er enghraifft, yn yr ardal awyr agored, mae 'gorsaf torri moron' yn y gegin fwd gyda byrddau torri a chyllyll diogelwch. Mae ysgol yn arwain at dop rilen fawr bren a siglen deiar, hefyd. Mae'r rhain yn galluogi plant i ymarfer eu medrau corfforol a mentro'n bwyllog.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi ymrwymo i ddarparu adnoddau diddorol ac ysbrydoledig ar gyfer plant ac maent yn adolygu'r rhain yn gyson, gan wneud newidiadau rheolaidd i ymestyn y ddarpariaeth a gweddu i ddiddordebau plant unigol. Mae'r adnoddau i gyd mewn cyflwr da ac yn cael eu storio ar lefel isel i alluogi plant i'w defnyddio'n annibynnol. Mae digonedd o adnoddau synhwyraidd, naturiol a bywyd go iawn, sydd ar gael i blant bob amser i archwilio a datblygu ystod o fedrau. Er enghraifft, mae mwd, tywod a dŵr ar gael i blant bob amser, dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd, gydag adnoddau bywyd go iawn i gefnogi ac ymestyn chwarae plant, fel bwcedi, rhidyllau, biceri a chregyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r unigolyn sydd â gofal yn dangos ymrwymiad cryf i gynnal darpariaeth o ansawdd da. Mae'n rhoi gwybod i'r unigolyn cyfrifol am gynnydd y lleoliad yn rheolaidd. Mae tîm rheoli cryf yn cefnogi'r unigolyn sydd â gofal i ddatblygu a rhannu gweledigaeth glir a gosod disgwyliadau uchel o'r holl ymarferwyr. Mae hyn yn sicrhau bod polisïau'n addas a bod Datganiad o Ddiben y lleoliad yn bodloni rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae'r lleoliad yn dilyn proses recriwtio drylwyr ac yn sicrhau bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cwblhau ar gyfer yr holl ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau perthnasol, maent yn barchus a chefnogol i'w gilydd ac yn cyflawni eu rolau'n fedrus. Mae'r unigolyn sydd â gofal yn esbonio'r holl bolisïau i staff newydd yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Mae hi'n dilyn trefniadau effeithiol i oruchwylio a monitro ymarferwyr yn rheolaidd. Mae'r unigolyn sydd â gofal yn diffinio rolau a chyfrifoldebau staff ac yn sicrhau bod anghenion hyfforddi unigol yn cael eu diweddaru'n gyson. Mae pob un o'r staff yn meddu ar gymwysterau gofal plant perthnasol, ac mae ychydig ohonynt yn gweithio tuag at achrediad pellach ar hyn o bryd.

Mae arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol lle mae staff a phlant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo'n dda. Mae ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae eu gwybodaeth yn fuddiol. Er enghraifft, mae staff yn darparu adnoddau bywyd go iawn i wella ardaloedd dysgu.

Mae ethos y lleoliad yn arwain at gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr ac arweinwyr. Mae hyn yn llwyddo i greu amgylchedd ysgogol lle rhoddir blaenoriaeth i anghenion plant. Er enghraifft, caiff pob un o'r staff eu cynnwys yn weithredol yn chwarae plant; maent yn dangos gofal ac yn annog dysgu yn ystod y sesiwn.

Mae arweinwyr yn nodi cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu yn llwyddiannus. Mae pob un o'r ymarferwyr yn cyfrannu'n briodol at y cynllun datblygu gyda chymorth gan y tîm rheoli. Fodd bynnag, nid yw'r broses monitro a gwerthuso bob amser yn cefnogi gwelliannau parhaus yn effeithiol, fel datblygu ymhellach ddealltwriaeth ymarferwyr o arweiniad newydd.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gydag Athro Ymgynghorol yr Awdurdod Lleol ac maent yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r cyngor a gânt. Mae'r tîm yn gwneud defnydd da o gyllid y mae'n ei dderbyn. Er enghraifft, mae Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar yn galluogi datblygu'r ardal awyr agored ymhellach. Mae'r wal ddringo yn cefnogi datblygiad medrau corfforol plant, ac mae bron pob un o'r plant yn dringo'r wal â hyder cynyddol.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau llwyddiannus â rhieni a gofalwyr o'r adeg y mae'r plentyn yn dechrau yn y lleoliad. Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn frwdfrydig ac mae'r ymarferwyr yn cynorthwyo rhieni / gofalwyr â sesiwn ddyddiol i ddal i fyny â lles. Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth reolaidd am gynnydd eu plentyn trwy ymweliadau ac adroddiadau ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n gwerthfawrogi'r cyfathrebu. Mae'r lleoliad yn rhannu profiadau a chyflawniadau'r plant trwy dudalen gaeedig ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â'r ysgol gynradd leol. Mae'r lleoliad yn trefnu i'r athro dosbarth ymweld â'r plant yn y lleoliad yn ystod y tymor cyn iddynt symud ymlaen. Mae'r lleoliad yn rhannu cyflawniadau a chynnydd y plant gyda'r ysgol i gefnogi cyfnod pontio esmwyth ar gyfer y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 24 | The responsible individual must ensure all practitioners meet the health needs of all children at all times. | Newydd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 22 Awst 2023